

## Tasg 2

# Pob Iaith Dan Haul

Ewch ati i **GYFLWYNO GWYBODAETH** am yr **IEITHOEDD CELTAIDD**. Dilynwch y penawdau hyn:

- Enwau'r gwledydd Celtaidd a ble maen nhw.
- Beth ydy'r ieithoedd Celtaidd, ble maen nhw'n cael eu siarad a faint o bobl sy'n eu siarad.
- Beth sy'n debyg yn yr ieithoedd Celtaidd.
- Pa iaith Geltaidd sy'n cael ei siarad fwyaf.
- Beth sy'n achosi pryder ynglŷn â'r ieithoedd Celtaidd.

Gellwch gyflwyno'r wybodaeth ar ffurf o'ch dewis chi e.e. bwletin newyddion, pwynt pŵer.

3. Ysgrifennwch baragraff i egluro
  - i) Pa ieithoedd sy'n cael eu siarad fwyaf
  - ii) Pa ieithoedd sy'n cael eu siarad yn y nifer mwyaf o wledydd

Defnyddiwch ystadegau a geirfa cymharu e.e. *mwy, llai, cymaint*